

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	29 Ionawr 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Rheolwr Gwastraff a Fflyd
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Gwastraff a Fflyd
Teitl:	Cyflwyno Taliadau am Gasgliadau Gwastraff Gwyrdd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r niferoedd cychwynnol sy'n defnyddio'r cynllun gwastraff gwyrdd newydd y codir tâl amdano, ynghyd â'r goblygiadau gwasanaeth a'r gyllideb gysylltiedig.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am lefel y cwsmeriaid sydd wedi manteisio hyd yma. Manylu ar os yw hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. Manylu ar y broses 'ymuno' a'i hadolygu. Darparu gwybodaeth am y goblygiadau cyllideb a staffio

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad; sylwadau ar faterion a godwyd ac yn nodi'r materion sydd angen eu hystyried ymhellach.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cymeradwyo Cynllun Taliadau am Wastraff Gwyrdd

Ar 2 Medi 2014 mynychodd Aelodau weithdy adolygu gosod cyllideb lle cafodd cynigion ar effeithlonrwydd gwahanol wasanaethau eu trafod.

Rhoddyd cyflwyno taliadau am gasglu gwastraff gwyrdd gerbron y Pwyllgor ar gyfer trafodaeth, a chytunwyd ar y sail honno;

i) Byddai'n cyflwyno lefelau uchel o arbedion/incwm (cymysgedd o'r ddau). Pe byddai'r nifer a fyddai'n manteisio arno yn isel, yna byddai arbedion o ran adnoddau (h.y. llai o angen am gerbydau casglu a llai o staff casglu). Pe bai'r nifer a fyddai'n manteisio yn uchel, yna byddai lefelau incwm yn uchel.

Felly mae cadernid i'r cynllun sy'n sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud boed preswylwyr yn manteisio ar y gwasanaeth ai peidio.

ii) Ni fyddai cyflwyno'r cynllun yn golygu newidiadau mawr i'r calendrau diwrnod casglu (felly mae cynnwrf/aflonyddwch yn cael ei leihau), h.y. mae'r neges yn haws i'w chyfathrebu.

iii) Canlyniad o beidio â chodi tâl fyddai diswyddiadau pellach. Byddai'n foesol anodd gwneud pobl yn ddi-waith drwy ddarparu gwasanaeth am ddim pan fo modd codi tâl am y

gwasanaeth hwn (mae ~25% o Gyngorau Lloegr yn codi tâl ar hyn o bryd am gasgliadau gwastraff gardd).

Pennwyd y cyfraddau ar gyfer casgliadau gwastraff gardd ar £24/ y flwyddyn ar gyfer bin ar olwynion 140 litr (neu 3 sach dympi gwyrdd), neu £36/ y flwyddyn am 2 o finiau ar olwynion 140 litr (neu 6 sach dympi gwyrdd).

Mae'r fenter ar godi tâl am wastraff gwyrdd yn gwbl unol â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyngorau ei wneud yn eu "Glasbrint Casgliadau", h.y. *"Codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd (fel y caniateir o dan Reoliadau Gwastraff a Reolir 1994), a'i gasglu unwaith bob pythefnos yn unig"*.

Yn dilyn cymeradwyo lansio'r cynllun taliadau gwastraff gwyrdd, roedd angen gwneud nifer o dasgau mewn cyfnod byr o amser:

- Paratoi a dosbarthu hysbysiadau gwybodaeth/calendrau diwrnod casglu
- Datblygu tudalen we (Cyswllt i ffurflen taliad / cwestiynau cyffredin ac ati)
- Datblygu ffurflen taliad ar-lein
- Caffael sticeri cod bar (a darllenwyr), tagiau sachau dympi

Cafodd y dyddiad 'mynd yn fyw' (y dyddiad y gallai cwsmer yn ymuno â'r gwasanaeth newydd) ei bennu fel 1 Rhagfyr 2014.

Mae cwsmeriaid wedi cael eu hannog i ddefnyddio'r system talu ar-lein lle bynnag y bo'n bosibl, fodd bynnag, gellid cymryd taliad o hyd dros y ffôn drwy'r ganolfan alwadau cwsmeriaid a thrwy Siopau Un Stop a llyfrgelloedd (lle i bob pwrpas mae'r staff yno yn llenwi'r ffurflen taliad ar-lein ar gyfer y cwsmer).

O 7 Ionawr, 2015, mae 3639 o gwsmeriaid wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth. O ystyried bod hwn yn 3 mis llawn cyn i'r gwasanaeth y codir tâl amdano ddechrau, mae hyn y tu hwnt i ddisgwyliadau. Mae'r broses dalu wedi gweithio'n dda gydag ychydig iawn o broblemau yn cael eu riportio.

O'r 3639 o gwsmeriaid sydd wedi cofrestru hyd yn hyn, mae'r proffil o ddulliau talu wedi bod fel a ganlyn:

Dull Talu	Nifer y cwsmeriaid
Ffurflen ar-lein - Cerdyn Credyd	703
Ffurflen ar-lein - Cerdyn debyd	1,317
Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid - cerdyn credyd	222
Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid - cerdyn debyd	924
Siopau un stop - cerdyn	52
Siopau un stop – arian parod	373
Siopau un stop – sic	48
Cyfanswm	3,639

Mae'r dadansoddiad o ddulliau talu yn dangos mai'r ffordd fwyaf poblogaidd o brynu'r gwasanaeth biniau gwyrdd yw drwy'r ffurflen talu ar-lein (sydd yn ei dro yn dangos bod hon yn broses syml i'r cwsmer ei defnyddio).

Bydd hyrwyddo pellach am y gwasanaeth yn digwydd o fis Ionawr tan fis Mawrth 2015, gan gynnwys posteri ar y cerbydau casglu sbwriel, defnyddio Llais y Sir, datganiadau i'r wasg a rhoi sticeri gwybodaeth ar finiau.

4.2 Goblygiadau Cyllideb a Staffio

Ni fydd union lefel yr arbediad yn hollol fesuradwy nes bod y gwasanaeth wedi cael ei gyflwyno a bod nifer y trigolion sy'n talu am y gwasanaeth yn hysbys. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gael trigolion i ymuno â'r cynllun newydd cyn gynted ag y bo modd (e.e. gostyngiad y cyntaf i'r felin), disgwylir bydd cyfran gymharol uchel o drigolion yn ei adael yn hwyr cyn talu am y gwasanaeth newydd (h.y. rydym yn disgwyl nifer fawr o breswylwyr gofrestru ym mis Mawrth 2015).

Erbyn dechrau mis Ebrill 2015, byddwn yn gwybod nifer y cwsmeriaid ar gyfer cychwyn y gwasanaeth newydd, felly byddwn yn gwybod faint o referniw a godir. Rhagwelir fodd bynnag, fel bydd y tymor tyfu yn dod yn ei flaen, bydd mwy o drigolion yn parhau i ymuno â'r gwasanaeth yn ystod Ebrill a Mai 2015. Erbyn mis Gorffennaf, dylem fod wedi cyrraedd sefyllfa gweddol gyson (o ran nifer y cwsmeriaid) a fydd wedyn yn ei gwneud yn bosibl i asesu'r lefelau adnoddau (cerbydau casglu a staff casglu) sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth newydd.

Fel y disgrifiwyd uchod, bydd lefel yr arbedion cyraeddadwy ar gyfer y gwasanaeth newydd hwn yn dibynnu yn gyntaf ar swm yr incwm a ddaw i mewn, ac yn ail ar yr arbedion adnoddau posibl (h.y. gostyngiad yn y cerbydau casglu a gostyngiad yn nifer y staff casglu). Ni fydd y cydbwysedd rhwng y ddau yn hysbys hyd nes y gellir asesu'r lefel adnoddau ym mis Gorffennaf 2015 (er, erbyn hynny, bydd lefel yr incwm oddi wrth y gwasanaeth newydd yn glir).

O'r 40,000 bras o eiddo sydd ar hyn o bryd yn derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd rhagwelir (yn seiliedig ar asesiad o gynlluniau tebyg a ddygwyd i mewn gan gynghorau eraill sydd â demograffeg debyg i Sir Ddinbych), bydd rhwng 10 -15,000 o eiddo yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth newydd.

At ddibenion eglurhaol, mae'r tabl isod yn dangos effaith arbedion gwahanol lefelau 'ymuno'

	Casgliad Gwastraff Gardd y Codir Amdano				
Opsiw System:	Gwasanaeth Casglu Gwastraff o'r Ardd PRESENNOL (dim arbediad)	20,000 o eiddo yn ymuno	15,000 o eiddo yn ymuno	10,000 o eiddo yn ymuno	5,000 o eiddo yn ymuno
Lefelau adnoddau sydd eu hangen:	6) Cerbyd 16 staff	4 Cerbyd 12	4 Cerbyd 10 staff	4 Cerbyd 10 staff	2 Gerbyd 6 staff
Arbediad Adnoddau	-	£128,000	£172,000	£172,000	£300,000
Incwm (£24 x nifer yr eiddo)	-	£480,000	£360,000	£240,000	£120,000
Cyfanswm	-	£608,000	£532,000	£412,000	£420,000

Yn seiliedig ar y nifer sydd wedi ymuno hyd yma, credir bod yr arbediad cyllideb targed o £400,000 dal yn gyraeddadwy.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol? Asesiad o'r effaith ar y Weledigaeth, Strategaeth Gymunedol, Cydraddoldeb a Chynnaladwyedd

Mae'r argymhelliad yn gyson â'r weledigaeth ar gyfer Sir Ddinbych 2025. Yn benodol "Bydd Sir Ddinbych yn lle delfrydol i fyw oherwydd":

- "byddwn yn ailgylchu'r rhan fwyaf o'n gwastraff ac arbed ynni".
- "byddwn yn parchu ac yn cynnal ein hamgylchedd naturiol".

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amcangyfrifir costau sefydlu (taflenni gwybodaeth/ sticeri cod bar/ sganwyr cod bar/ tagiau/ arwyddion cerbydau/ cymorth gweinyddol etc.) i ddod i £9900. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ariannu o'r gyllideb wastraff wrth gefn felly nid yw wedi ei ystyried wrth bennu cyfrifiadau cyfrif refeniw.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau fel atodiad

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Gweithdy Pennu Cyllideb yr Aelodau 2 Medi, 2014.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Yr arwyddion cynnar yw bod cyflwyno'r taliadau am wasanaeth gwastraff gwyrdd ar darged i wireddu'r arbedion rhagamcanol o £400k.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd cyflwyno codi tâl am wastraff gardd yn effeithio ar y gyfradd ailgylchu Sir Ddinbych (gan y bydd llai o wastraff yn cael ei anfon i'w gompostio). Amcangyfrifir y byddai cyfradd ailgylchu Sir Ddinbych yn gostwng tua 4%- 6% a fyddai'n golygu na fyddai'r Cyngor mwyach â'r gyfradd ailgylchu uchaf yng Nghymru. Byddai targed ailgylchu statudol 2015/16 o 58% yn dal i fod yn gyraeddadwy, ond gallai targedau ailgylchu'r dyfodol fod yn fwy heriol. Gallai methu â bodloni'r targed ailgylchu arwain at ddirwy gan Lywodraeth Cymru (LIC) sy'n cyfateb i £100,000 am bob canran y methir y targed ohono. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw LIC wedi gweithredu dirwyon gyfer y cynghorau hynny sydd wedi methu â chyrraedd y targedau cyfredol (roedd tri chyngor a fethodd â chyrraedd y targed o 52% ar gyfer 2012/13 - ni chafodd yr un o'r Cynghorau hyn ddirwyon).

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

O dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, hy hyrwyddo neu wella'r amgylchedd er lles yr ardal.

Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu rôl archwilio mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi, tra bo Erthygl 6.3.4 (b) yn nodi pwerau archwilio mewn perthynas ag edrych ar berfformiad y Cyngor wrth ddarparu ei wasanaethau a'i flaenoriaethau.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Gwastraff a Fflyd

Ffôn: 01824 712107